

Adroddiad Ymgynghori
Y Tyllgoed: Llwybrau Diogel yn y Gymuned 2018/19: Ysgol Plasmawr

Rhif y Project: CO17003

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 03/10/2017 a 28/05/2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol os yw'n bosibl.

O'r 192 eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 9 hysbysiad safle a godwyd ar y safle, cafwyd 5 ymateb unigol.

- | | |
|---|--|
| 4 | yn cefnogi'r cynllun, rhoddodd rai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol |
| 1 | yn anghytuno â'r cynigion |

Crynoir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen â'r cynllun, fel y nodir yn y cynllun ymgynghori.

Problemau yn berthnasol i dyllau yn y ffordd

Cwynodd preswilydd am y tyllau yn Keyston Road ac mae'n credu y dylid gwario arian yn trwsio'r tyllau ac nid ar arafu traffig.

Mae'r Cyngor yn gosod cyllidebau blynyddol ar gyfer yr amryw wasanaethau y mae'n eu cynnig, yn cynnwys cyllideb Cynnal a Chadw'r Briffordd a'r cynlluniau Rheoli Traffig newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i weithredu gwahanol fathau o waith. Nid yw'n bosibl i Swyddogion ddefnyddio'r arian hwn at ddibenion heblaw am y rhai sydd wedi eu pennu gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, bydd angen i breswylwyr gysylltu â'u Cyngorydd ac Aelod Cynulliad os ydynt am i'r penderfyniadau hyn newid.

Mater – Cais am fesurau arafu traffig ychwanegol yn Keyston Road

Rwy'n bryderus nad oes cynnig cyflwyno cyfyngiadau cyflymder yn ochr isaf Keyston Rd, tuag at Pwllmelin Rd (ger y troad dall siarp).

Gallaf weld eich bod yn gosod 3 bwrdd arafu ar y ffordd ond un man peryglus ar y ffordd yw'r troad ymhellach tuag at Pwllmelin Road, cyn y gyffordd â Whitland Crescent.

Mae arolygon cyflymder traffig wedi eu cwblhau ar Keyston Road, cofnodwyd cyflymder traffig y 50fed canradd fel 21mya a'r 85ain fel 26mya ger Whitland Crescent (* gw. nodyn). Hefyd, ni chofnodwyd unrhyw wrthdaro a arweiniodd at

anafiadau yn rhan isaf Keyston Road. Oherwydd y troad yn y ffordd, fel arfer, mae cyflymder y traffig yn arafach yn rhan hon Keyston Road o'i chymharu â'r rhan uchaf. Mae hanes da o ddiogelwch yma ac nid oes unrhyw gyfiawnhad ar hyn o bryd dros gyflwyno mesurau arafu traffig, fodd bynnag, byddwn yn rhoi marciau ffordd 'araf/slow' yn wynebu'r ddau gyfeiriad y naill ochr a'r llall i'r troad i helpu i godi ymwybyddiaeth gyrwyr.

Yn ogystal, cyflwynir cyfyngiad cyflymder o 20mya yn Keyston Road a'r strydoedd o'i hamgylch.

(*Nodyn: * Sylwch – y 50fed a'r 85ain canradd yw'r cyflymderau y mae 50% a 85% o'r cerbydau yn teithio'n is na nhw.)

Mater – Cais am newid y groesfan pâl i groesfan sebra ddyrchafedig

Rwy'n cefnogi'r rhan fwyaf o'r cynllun a gynigir, ac eithrio'r cynnig i newid croesfan bresennol a reolir yn groesfan pâl ddyrchafedig. Mae'r groesfan pelican sydd yn y lleoliad hwn yn peri oedi i gerddwyr sy'n croesi wrth iddynt aros am y dyn gwyrdd. Yn rheolaidd, byddaf yn gweld plant ysgol yn gwibio ar draws y ffordd trwy'r bylchau rhwng ceir, yn hytrach nag aros am y golau fel mae hi. Mae'r lleoliad hwn yn ddelfrydol ar gyfer croesfan sebra ddyrchafedig, sy'n llawer mwy dymunol ar gyfer cerddwyr oherwydd nad oes isafswm amser i aros cyn croesi.

Cydnabyddir y gall croesfannau sebra fod yn ateb da i gerddwyr, yn arbennig oherwydd eu bod wastad yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr dros gerbydau.

Oherwydd agosrwydd y cyffyrdd at Pwllmelin Road a Pentrebane Road a'r nifer uchel o gerbydau sy'n teithio'r ffordd hyn, ystyrir mai croesfan pâl fyddai'r fwyaf priodol ar gyfer y lleoliad.

Mae croesfannau pâl yn defnyddio synwryddion i fonitro symudiad cerddwyr ar y ffordd, mae'r golau traffig coch yn para'n hirach os oes angen mwy o amser i gerddwyr groesi. Mae synwryddion uwch y ddaear hefyd yn synhwyro pan fo cerddwr yn symud i ffwrdd, neu'n croesi cyn yr arwydd ac maent yn canslo'r cais am arwydd coch, fel nad yw'n stopio gyrwyr yn ddiangen.


Cefnogaeth ar gyfer y cynllun

Yn gyntaf, hoffwn gymeradwyo Cyngor Caerdydd ar y byrddau arafu a gynigir ar gyfer Keyston Rd, y Tyllgoed.

Rwyf wrth fy modd yn gweld y cynnig croesfan sebra ddyrchafedig yn Pwllmelin Rd, a fyddai'n gadael i'n disgyblion groesi o'r siopau lleol i Pwllmelin Rd yn ddiogel. Mae diffyg pwynt croesi diogel ar draws Pwllmelin Rd wedi arwain at nifer o ddamweiniau a damweiniau agos i'n disgyblion dros y blynyddoedd, a chroesawir y cynnig yn fawr o safbwynt lles y disgyblion.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur.




Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy.